


BritishRedCross

Y Groes Goch Brydeinig

## Helpu rhywun sy'n

# gwaedu'n drwm

Cam allweddol:
**Rhoi pwysau ar y clwyf.**



## Gwybod beth i'w wneud:

Mae gwaed yn llifo o glwyf (ac mae'n rhy fawr i blastr).

## Camau i'w cymryd:

Rhowch bwysau ar y clwyf gan ddefnyddio beth bynnag sydd ar gael (eich llaw, brethyn neu ddilledyn). Ffoniwch 999 cyn gynted â phosibl, neu gofynnwch i rywun arall wneud hynny.

Daliwch ati i roi pwysau ar y clwyf nes bydd help yn cyrraedd.

## Gwybodaeth ategol:

Bydd y pwysau a roddwch ar y clwyf yn atal neu'n arafu llif y gwaed. Bydd hyn yn helpu'r gwaed i geulo ac yn atal y gwaedu.

I roi pwysau ar y clwyf, gallwch ddefnyddio eich llaw, crys-T, sgarff – unrhyw beth y gellir ei roi dros y clwyf.

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd